# Enghreifftiau o dorri uniondeb academaidd ac arfer academaidd gwael

Mae Adran 6 o'r Rheoliadau Uniondeb Academaidd yn darparu diffiniadau ar gyfer y mathau o dorri uniondeb academaidd. Nod yr isod yw rhoi cyd-destun pellach ynghylch y gwahanol fathau trwy ddarparu enghreifftiau.

## Llên-ladrad

- Cynnwys yn fwriadol yng ngwaith myfyriwr ei hun, ddarnau o waith person arall heb farcio'r testun yn benodol fel dyfyniad ac achredu'r ffynhonnell.
- Defnyddio gwaith neu syniadau person arall yn fwriadol gan gynnwys delweddau a gwaith creadigol arall heb gydnabod y ffynhonnell. Gall gwaith neu syniadau gynnwys: testun (gan gynnwys aralleirio), modelau/algorithmau mathemategol/cyfrifiadurol, macros, taenlenni, tudalennau gwe, cronfeydd data, dyluniadau/modelau/arddangosfeydd o unrhyw fath, diagramau, graffiau, tablau, lluniadau, gweithiau celf o unrhyw fath, delweddau digidol, lluniadau dylunio â chymorth cyfrifiadur, ffeiliau GIS, ffotograffau, mapiau, cerddoriaeth/cyfansoddiad o unrhyw fath, posteri, cyflwyniadau ac olrhain. D.S.: Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.
- Aralleirio neu grynhoi gwaith person arall yn fwriadol heb gydnabod.
- Torri a gludo o ffynonellau electronig heb gydnabod ffynhonnell yr URL neu'r awdur yn benodol a/neu heb farcio'r testun a gludwyd yn benodol fel dyfyniad.
- Cyflwyno darn o waith yn gyfan gwbl fel gwaith y myfyriwr ei hun pan gafodd ei gynhyrchu mewn cydweithrediad ag eraill, a pheidio â datgan bod y cydweithio hwn wedi digwydd.
- Cyflwyno delweddaeth neu gynhyrchion creadigol wedi'u priodoli'n fwriadol heb nodi ffynhonnell y gwaith.

## Twyllo

- Cael mynediad at, neu ddefnyddio, nodiadau heb awdurdod neu ddeunydd arall sy'n ymwneud ag arholiad neu brawf yn y dosbarth.
- Cyflwyno unrhyw wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth sydd wedi'i storio'n electronig, i'r ystafell arholiadau oni bai bod rheoliadau'r arholiad neu'r cwrs yn caniatáu hynny'n benodol.
- Cyfathrebu yn ystod arholiad ag unrhyw berson y tu allan i'r ystafell arholiadau neu â myfyrwyr eraill o fewn yr ystafell arholiadau.
- Copïo gwaith myfyriwr arall gyda'u gwybodaeth neu eu cytundeb neu hebddynt, caniatáu i berson arall eich dynwared chi, neu ddynwared person arall, gyda'r bwriad o ennill mantais annheg i chi eich hun neu'r person arall.
- Diwygio ac ailgyflwyno gwaith yn dilyn cyhoeddi marc terfynol er mwyn cael marc gwell.

## Twyllo Cytundebol

- Rhoi aseiniad ar wefan arbenigol a gofyn i bobl dendro er mwyn ysgrifennu'r aseiniad ar ran y myfyriwr.
- Prynu aseiniad 'oddi ar y silff' o wefan a'i gyflwyno fel gwaith y myfyriwr ei hun.

## Ffugio

- Cyflwyno data yn seiliedig ar ymchwiliadau rheoledig, arbrofion, arolygon neu ddadansoddiadau a honnir yn ffug eu bod wedi'u cynnal gan y myfyriwr.
- Dyfeisio cyfeiriadau a/neu honiadau ffug.
- Cynnwys data ac ati yng ngwaith y myfyriwr y gwyddys ei fod yn ffug neu'n anghywir, p'un a yw wedi'i greu gan y myfyriwr ai peidio.

**Ailgylchu**

- Ailgyflwyno gwaith sydd eisoes wedi'i asesu a'i farcio'n llawn neu'n rhannol ar gyfer asesiad arall yn yr un modiwl neu gwrs neu gwrs gwahanol.
- Methu i ddatgelu bod darn o waith wedi'i gyflwyno i'w asesu ac wedi cael ei ddefnyddio, neu y bydd yn cael ei ddefnyddio, at ddibenion academaidd eraill.
- Cyhoeddi'r un darn o waith yn ei hanfod mewn mwy nag un lle heb ddatganiad.

**Cydgynllwynio**

- Copïo gwaith myfyriwr arall.
- Cwblhau darn o waith ar y cyd a ddylai fod wedi bod yn ymdrech unigol a chyflwyno darnau o waith bron yn union yr un fath.
- Benthyg eich gwaith i fyfyriwr arall.
- Caniatáu'n fwriadol i'ch gwaith gael ei gaffael gan fyfyriwr arall i'w gyflwyno fel eu gwaith eu hunain.

**Arall**

- Ymgymryd ag arfer anfoesegol fel cynnal ymchwil heb gael cymeradwyaeth foesegol gan y Brifysgol pan fo angen, neu ddefnyddio gwybodaeth heb awdurdod sydd wedi'i chasglu'n gyfrinachol.
- Rhannu gwaith gyda myfyriwr arall.
- Torri rheolau arholiadau (fel y nodir yn y Rheoliadau ar gyfer Cyrsiau a Addysgir).

**Arfer Academaidd Gwael**

- Cyfeirnodi gwael heb briodoli digonol.
- Gwaith sy'n dangos bwriad cyfyngedig i gyrraedd safonau academaidd derbyniol.
- Gwallau bach
- Rhywfaint o aralleirio gwael.